Cyfrifoldebau'n cynnwys cynorthwyo'r Cogydd i baratoi'r gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Ystruth.

Mae cyfle wedi codi o fewn Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio ar gyfer Cogydd Cynorthwyol i weithio dan oruchwyliaeth y Cogydd i gynhyrchu gwasanaeth Arlwyo Prydau Ysgol, gan arsylwi'r holl reoliadau ar hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag ystod llawn dyletswyddau Cogydd yn absenoldeb y Cogydd i gynnwys yr holl ddyletswyddau a gweithdrefnau gweinyddol.

Gellid gofyn i ddeiliad y swydd lanw dros absenoldeb tymor hir neu dymor byr o fewn Gwasanaeth Prydau Ysgol Blaenau Gwent.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus City & Guilds 706/1, 706/2 neu NVQ Lefel 1/2 mewn Arlwyo a Thystysgrifau Lefel 2 a 3 Diogelwch Bwyd. Bydd gennych brofiad o weithio o fewn y diwydiant Arlwyo gyda sgiliau arlwyo ymarferol.